



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y **Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe**

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell  
Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS  
Teams

Dydd Iau, 12 Hydref 2023 am 10.30 am

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe) oedd yn llwyddu

### Y Cynghorwyr:

Steve Hunt                      Cyngor Castell-nedd Port Talbot  
Darren Price                     Cyngor Sir Gar

### Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:

Chris Foxall                      Cadeirydd dros dro Bwrdd Strategaeth Economaidd Abertawe

### Swyddogion:



Steven TO Aldred-Jones      Cyngor Sir Gâr  
Jonathan Burnes                Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe)  
Allison Lowe                    Cyngor Abertawe  
Chris Moore                      Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr)  
Martin Nicholls                Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe)  
Nicola Pearce                    Cyngor Castell-nedd Port Talbot  
Debbie Smith                    Dirprwy Swyddog Monitro (Cyngor Abertawe)  
Wendy Walters                 Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr)  
Ian Williams                      Dinas-ranbarth Bae Abertawe

### Ymddiheuriadau am absenoldeb:

Y Cynghorydd(wyr) David Simpson (Cyngor Sir Benfro)  
Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a/ac Emma Woollett (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe)  
William Bramble (Prif Weithredwr (Cyngor Sir Penfro)) a/ac Karen Jones (Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot))

## 14 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.



## 15 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

## 16 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

Gwnaed y cyhoeddiadau canlynol:

- 1) Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Medwin Hughes a oedd newydd ymdeol o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant am ei gefnogaeth a'i waith wrth gyfrannu at gyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Byddai ei olynnydd, yr Athro Elwen Evans, yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd yn y dyfodol.
- 2) Mynegodd y Cadeirydd hefyd ei ddiolch a'i ddymuniadau gorau i Mark Hackett, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a oedd hefyd wedi rhoi'r gorau i'w rôl.

## 17 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 18 Monitro Ariannol Chwarter 1 2023/24.

Cyflwynodd Chris Moore, Swyddog Adran 151, adroddiad i'r cyd-bwyllgor i roi'r diweddaraf iddynt ar sefyllfa ariannol ddiweddaraf Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** y bydd y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad sy'n rhoi'r diweddaraf am fonitro ariannol.

## 19 Adroddiad Uchafbwyntiau Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Jonathan Burnes, Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Bae Abertawe, adroddiad "Er Gwybodaeth" i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyd-bwyllgor am gynnydd y rhaglenni/prosiectau sy'n rhan o Bortffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe fel yr amlinellir yn Atodiad A. Darparwyd diweddariadau ynghylch y canlynol:

- Ymgysylltu â Busnesau a Chyfathrebu;
- Yr Egin;
- Pentre Awel;
- Isadeiledd digidol;
- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer (HAPS);
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau;
- Prosiect Morol Doc Penfro.

O ran Prosiect Morol Doc Penfro, nodwyd bod risg newydd wedi'i nodi oherwydd y rownd arwerthu contractau ar gyfer gwahaniaeth aflwyddiannus mewn perthynas ag ynni gwynt ar y môr gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, roedd y risg yn cael ei lliniaru a'i rheoli ac roedd cynllun gwaith wedi'i lunio er mwyn cyflawni canlyniadau ar gyfer Prosiect Morol Doc Penfro, yn enwedig o ran isadeiledd arloesedd, a fyddai'n gwasanaethu uchelgeisiau trawsnewid ynni am ddegawdau i ddod.

**20 Asesiad Effaith Adeiladu.**

Darparodd Jonathan Burnes, Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Bae Abertawe, adroddiad "Er Gwybodaeth" i hysbysu'r Cyd-bwyllgor o'r Crynodeb o'r Asesiad Effaith Adeiladu fel yr amlinellir yn Atodiad A.

Eglurodd y Cyfarwyddwr yr wybodaeth yn yr adroddiad a oedd yn nodi nad yw'r statws risg wedi newid, fodd bynnag, eglurodd fod y costau sy'n gysylltiedig â dau brosiect wedi cynyddu mewn perthynas â Champysau Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Phrosiect Morol Doc Penfro. Esboniodd y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â'r ddau brosiect ac amlinellodd y mesurau lliniaru a oedd yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau.

Gofynnodd y Cynghorydd Darren Price i HAPS yn benodol gael ei ystyried mewn fformat neu adroddiad gwahanol i sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu olrhain effaith pwysau chwyddiant yn y dyfodol ar y cynllun.

**21 Adroddiad Argymhellion a Chynllun Gweithredu Adolygiad Portffolio Gateway.**

Cyflwynodd Ian Williams, Rheolwr Datblygu Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe, adroddiad i hysbysu'r Cyd-bwyllgor ynghylch canlyniad Adolygiad Portffolio Gateway ac i gytuno ar y Cynllun Gweithredu mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad.

**Penderfynwyd:**

- 1) y bydd y Cyd-bwyllgor yn nodi canlyniad Adolygiad Portffolio Gateway ac yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu sydd ynghlwm yn Atodiad B a'r ymateb i argymhellion yr Adolygiad (Atodiad A).

Daeth y cyfarfod I ben am 11.14 am

**Cadeirydd**